

Sport RCT

## Carter, Eli, Millie, Greyson ac Alivia

## Ysgol Gynradd Oaklands

Mae'r Llysgenhadon Ifainc yma wedi chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn eu hysgol. Fe wnaethon nhw roi cyflwyniadau i bedwar dosbarth ac i lywodraethwyr yr ysgol, gan rannu eu syniadau a chasglu barn disgyblion i helpu i lunio eu rolau a'u gweithgareddau. Fe wnaethon nhw greu holiaduron i gasglu rhagor o adborth a defnyddio'r wybodaeth yma i gynllunio gwelliannau a gweithgareddau. Fe wnaethon nhw ymchwilio i offer a'i brisiau, llenwi ffurflenni archebu ar gyfer adnoddau newydd, a gwella'r ffordd roedd offer chwaraeon yn cael ei drefnu a'i storio. Maen nhw wedi sefydlu ardaloedd wedi'u neilltuo ar y maes chwarae ac maen nhw bellach yn cynnal gweithgareddau aml-chwaraeon dyddiol ar gyfer Blynyddoedd 1–3 yn ystod amseroedd egwyl. Yn ogystal, maen nhw'n gweithio ochr yn ochr â staff i gyflwyno clwb ar ôl ysgol wythnosol ar gyfer plant o oedran y Dosbarth Derbyn i blant Blwyddyn 2. Mae'r grŵp yn cwrdd yn rheolaidd â staff i adolygu cynnydd, trafod syniadau, a chynllunio sesiynau a gemau i sicrhau bod gweithgareddau'n parhau i fod yn ddiddorol ac yn llwyddiannus.

“Rydw i’n teimlo bod hyn wedi rhoi cyfle da i mi weithio gyda disgyblion ifainc ac arwain sesiynau chwaraeon.”

“Rydw i’n hoffi sut rydyn ni’n gweithio gyda’n gilydd i gynnal gemau chwaraeon i’r plant iau yn yr awyr agored a chael hwyl!"

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - MEHEFIN 2026**

Chwaraeon RhCT Sport RCT

sportwales chwaraeoncymru

YOUTH SPORT TRUST

RHONDDA CYNON TAF